## HYSBYSIAD O GYNNIG

### Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd y Pentre, Lôn yr Ysgol a Wheeler Hill, Nannerch) (Cyfyngiad Cyflymder 20mya) 202x

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd drwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 82 (2) (a) ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod cyfyngiad cyflymder o 20mya ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 3 i'r hysbysiad hwn.

### ATODLEN
### <u>Terfyn Cyflymder 20mya</u>

**Wheeler Hill, Nannerch,** o bwynt 291 metr i de o'r gyffordd â'r A541 am bellter o 276 metr i gyfeiriad y de.

**Ffordd y Pentre, Nannerch,** o bwynt 25 metr i de o'r gyffordd â Pen Y Coed am bellter o 156 metr i gyfeiriad y de.

**Lôn yr Ysgol, Nannerch**, ei chyffordd â Ffordd y Pentre ar ei hyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â chynllun yn dangos y darnau o ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol iddynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Earl Road Yr Wyddgrug CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod, (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/JB/Nannerch/20mph) erbyn dydd Gwener, 25 Awst 2023.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NF
Dydd Gwener, 4 Awst 2023

**Dyddiedig xx xxxxx 202x**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Ffordd y Pentre, Lôn yr Ysgol a Wheeler Hill, Nannerch) (Cyfyngiad Cyflymder 20mya) 202x**

**<u>GORCHYMYN</u>**

**fel y nodir oddi mewn**


**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Ffordd y Pentre, Lôn yr Ysgol a Wheeler Hill, Nannerch) (Cyfyngiad Cyflymder 20mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y “Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adran 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf Gorchymyn 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

a) Gosod terfyn cyflymder o 20mya yn y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen yr hysbysiad hwn.

**ATODLEN**
**<u>Terfyn Cyflymder 20mya</u>**

**Wheeler Hill, Nannerch,** o bwynt 291 metr i’r de o’r gyffordd â’r A541 am bellter o 276 metr i gyfeiriad y de.

**Ffordd y Pentre, Nannerch,** o bwynt 25 metr i’r de o’r gyffordd â Phen y Coed, am bellter o 156 metr i gyfeiriad y de.

**Lôn yr Ysgol, Nannerch**, ei chyffordd â Ffordd y Pentre ar ei hyd.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y )
diwrnod hwn o ym mhresenoldeb :- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**UWCH GYFREITHIWR**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Ffordd y Pentre, Lôn yr Ysgol a Wheeler Hill, Nannerch) (Terfyn Cyflymder 20mya) 202x**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG I WNEUD Y GORCHYMYN**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno terfyn cyflymder 20mya diofyn cenedlaethol ar bob ffordd gyfyngedig yng Nghymru o 17 Medi 2023.


Mae ffyrdd cyfyngedig fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig ac mae ganddynt system o oleuadau stryd.

Mae'r Awdurdod yn adolygu'r holl derfynau cyflymder o fewn y Sir, mewn perthynas â'u haddasrwydd i'r ddeddfwriaeth ac mae'r ffyrdd yn Nannerch yn ffurfio rhan o hyn.


Oherwydd bod y ffyrdd a nodwyd yn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig mewn ardal ymylol sy'n cefnogi awyr dywyll, nid oes goleuadau stryd yno. Felly, cynigir Gorchymyn Rheoleiddio Traffig 20mya, gan fod y ffyrdd hyn yn cefnogi'r meini prawf ar gyfer y terfyn cyflymder a awgrymwyd.

Mae'r Awdurdod yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bobl sy'n defnyddio'r ffordd yn ogystal â gwella amwynderau yn yr ardal.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.



Katie Wilby,
Cyngor Sir y Fflint,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NF. Dydd Gwener, 4 Awst 2023




## KEY

Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya
Proposed 20mph Speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
StreetScene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

# Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya
# Proposed 20mph Speed Limit

## VILLAGE ROAD NANNERCH

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: | Nick Williams | Telephone: | 01352 704642 |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 |
| Checked by: | Richard Flood | Date: | July 2023 |

Sheet 1 of 1

| Scales at A1: | Drawing No: | Phase/Rev: |
|---|---|---|
| 1: NTS | HT/23/Village Rd/201 | P1 |

AutoCAD File Ref: H:\TRO's Speed\TRO's 2023\Halkyn and Pentre Halkyn Orders\Halkyn 30 20mph\30mph Halkyn Nannarch.dwg Jul 31, 2023 - 10:13am